

**SIR BENFRO (A487 A FFYRDD CYFFINIOL I GROES PELCOMB)  
(TERFYN CYFLYMDER 30MYA A 40MYA) GORCHYMYN 2022**

---

**Hysbysir** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 a rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn o 40mya drwy'r gyffordd ar yr A487 Hwlfordd i Heol Dewi Sant a 30mya cyfyngedig fel y nodir yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Mae'r cynigion yn cael eu hyrwyddo yn dilyn adolygiad terfyn cyflymder drwy'r pentref.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn ar-lein yn [www.pembrokeshire.gov.uk/TRO-public-notice](http://www.pembrokeshire.gov.uk/TRO-public-notice)

Os ydych chi'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y seiliau dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig i'r rhai sydd wedi llofnodi isod erbyn 23 Mawrth 2022. Dyfynnwch: Pelcomb -S/L

Wedi'i ddyddio yr 2il ddiwrnod hwn o Fawrth 2022.

Darren Thomas  
Pennaeth Seilwaith  
Cyngor Sir Penfro  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd

**Atodlen 1  
Terfyn Cyflymder 30mya  
Hyd**

<b>Ffordd</b>	
C3160 i Lambston	O bwynt 30 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r A487.
U3087 i Camrose	O bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r A487
Pelcomb Villas	Hyd cyfan

**Atodlen 2  
Terfyn Cyflymder 40mya**

A487	O bwynt 209 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r C3160 i bwynt 260 metr i'r De-ddwyrain.
------	------------------------------------------------------------------------------------------------

## **Datganiad o Reswm**

Mae adolygiad terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar yr A487 yng Nghroes Pelcomb. Ystyriodd yr adolygiad hanes y gwrthdrawiadau, data'r arolwg cyflymder a geometreg y ffordd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn cyflymder presennol i 40mya drwy'r gyffordd a 30mya ar y ffyrdd preswyl.




# A487 Pelcomb Cross

Map produced on: 12 October 2021

Draft Speed Limit Proposal for discussion  
Exact extend of limit to be determined on site

Scale (A3 Print)  
1:2000



**SIR BENFRO (A487 A FFYRDD CYFFINIOL YNG NGHROES PELCOMB)  
(TERFYN CYFLYMDER 30MYA A 40MYA) GORCHYMYN 2022**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y Cyngor") drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r ffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.
2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.
3. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Sir Benfro (A487 a Ffyrdd Cyffiniol i Groes Pelcomb (Terfyn Cyflymder 30mya a 40 mya) 2022" a bydd yn dod i rym ar y \*\* diwrnod o \*\*\*\* Dwy Fil a Dau ar Hugain.

**RHODDWDYD** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro y [REDACTED] diwrnod hwn o [REDACTED] Dwy fil a Dau ar Hugain.

**SÊL GYFFREDIN SIR BENFRO**

Mae'r **CYNGOR SIR** yma wedi'u gosod ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig:

**Atodlen 1  
Terfyn Cyflymder 30mya  
Hyd**

<b>Ffordd</b>	
C3160 i Lambston	O bwynt 30 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r A487.
U3087 i Camrose	O bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r A487
Pelcomb Villas	Hyd cyfan

**Atodlen 2  
Terfyn Cyflymder 40mya**

A487	O bwynt 209 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r C3160 i bwynt 260 metr i'r De-ddwyrain.
------	------------------------------------------------------------------------------------------------